




Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Cynllun Taliadau Tynnu Dŵr

2020/21



Y mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru'n defnyddio'r teitl gweithiol 'Cyfoeth Naturiol Cymru'.

Ein diben yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn awr ac i'r dyfodol.

Byddwn yn gweithio dros gymunedau Cymru i amddiffyn pobl a'u cartrefi gymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd. Byddwn yn darparu cyfleoedd iddynt ddysgu, defnyddio a chael budd o adnoddau naturiol Cymru.

Byddwn yn gweithio dros economi Cymru ac yn galluogi defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gynnal swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
Rhif ffôn 0300 065 3000
E-bost : [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn ar gael o'n Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid
Ffôn: 0300 065 3000

Cynllun Taliadau Tynnu Dŵr Cordd Adnoddau Naturiol Cymru 2020/21

1. Enwi a Chychwyn

1.1 Llunnir y Cynllun Taliadau Tynnu Dŵr hwn ("y Cynllun") gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rhinwedd y pwerau a roddir iddo o dan adrannau 41-41C o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac yn unol ag adran 42 y Ddeddf honno.

1.2 Mae'r Cynllun yn ymwneud â chyfnodau codi tâl sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020. Mae cyfeiriadau at flynyddoedd ariannol yn golygu cyfnodau o 12 mis yn dechrau ar 1 Ebrill.

1.3 Dylid cyfeirio at y Cynllun fel Cynllun Taliadau Tynnu Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru.

2. Dehongli

2.1 Ac eithrio lle nodir yn wahanol, bydd i eiriau a chymalau yr un ystyr ag y priodolir iddynt yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd ("y Ddeddf") a '[Rheoliadau Tynnu Dŵr \(Darpariaethau Trosiannol\) 2017](#)' ar gyfer tyniadau a eithriwyd yn flaenorol. Mae rhagor o wybodaeth am newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr ar gael ar ein [gwefan](#).

3. Cwmpas y Cynllun

3.1 Mae'r Cynllun yn ymwneud â'r canlynol:

3.1.1 "Y Tâl Ymgeisio" fel y'i diffinnir ym adran 4 isod.

3.1.2 "Y Tâl Gweinyddu Hysbysebion" fel y'i diffinnir ym adran 5 isod.

3.1.3 "Y Tâl Blynyddol" fel y'i diffinnir ym adran 6 isod.

3.2 Ni fydd unrhyw beth yn y Cynllun yn effeithio ar unrhyw un o bwerau CNC i ymrwymo i gytundeb ynglŷn â thaliadau gyda thynwyr dŵr penodol, o dan ddarpariaethau adrannau 126, 127 neu 130 y Ddeddf, neu i ymrwymo i unrhyw gytundeb arall yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â thalu taliadau mewn perthynas â'i swyddogaethau adnoddau dŵr.

3.3 Lle bo CNC yn ymrwymo i gytundeb o dan adran 126 neu 130 y Ddeddf, bydd unrhyw ostyngiad yn berthnasol i'r tâl safonol fel y'i nodir ym mharagraff 6.3.1 isod a'r tâl iawndal fel y'i nodir ym mharagraff 6.3.2 isod.

3.4 Lle bo CNC yn ymrwymo i gytundeb o dan adran 127 y Ddeddf, bydd unrhyw ostyngiad yn berthnasol i'r tâl sylfaenol fel y'i nodir ym mharagraff 2.1 o Atodlen 2 isod a hefyd i'r tâl atodol fel y'i nodir ym mharagraff 2.2 o Atodlen 2 isod ond nid i'r tâl iawndal fel y'i nodir ym mharagraff 6.3.2 isod

3.5 Lle bo rhywun yn gofyn am gyngor cyn ymgeisio neu'n cynnal trafodaethau â CNC cyn ymgeisio mewn perthynas â chais arfaethedig am drwydded i dynnu neu gronni dŵr neu gais i newid (amrywio) trwydded sydd eisoes yn bodoli, y tâl fydd £125 am bob awr ychwanegol wedi'r 2 awr gychwynnol o gyngor cyn ymgeisio a roddir neu drafodaethau cyn ymgeisio a gynhelir.

4. Y Tâl Ymgeisio

- 4.1 Bydd y Tâl Ymgeisio yn daladwy mewn perthynas â chais am unrhyw drwydded o dan y Ddeddf i dynnu neu Gronni dŵr, neu i newid amodau unrhyw drwydded o'r fath, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 4.2.
- 4.2. Gwelir y swm ar gyfer blwyddyn weithredu gyfredol y Cynllun yn Atodlen 3.
3. Pennir y swm ar gyfer blynyddoedd ariannol dilynol yn unol â Adran 10 isod.

4.2 Nid yw'r Tâl Ymgeisio yn daladwy mewn perthynas â'r canlynol:

4.2.1 trosglwyddo deiliad trwydded o dan adran 59A y Ddeddf;

4.2.2 rhannu trwydded o dan adran 59C neu adran 59D y Ddeddf;

4.2.3 newid trwydded er mwyn lleihau faint o ddŵr yr awdurdodwyd i'w dynnu yn unol ag adran 51(2) a (4) y Ddeddf;

4.2.4 dirymu trwydded o dan adran 51(1) y Ddeddf, neu

4.2.5 newid trwydded er mwyn gosod cyfyngiad amser arni o dan adran 51(2) y Ddeddf

5. Y Tâl Gweinyddu Hysbysebion

5.1 Bydd y Tâl Gweinyddu Hysbysebion yn daladwy, lle bo'n berthnasol, ar gyfer talu costau gweinyddol y gwaith y bydd CNC yn ei wneud er mwyn hysbysebu cais am drwydded (ac eithrio trwyddedau dros dro) o dan y Ddeddf i dynnu neu Gronni dŵr, neu i newid amodau unrhyw drwydded o'r fath ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 4.2.3 uchod.

5.2 Gwelir swm y Tâl Gweinyddu Hysbysebion ar gyfer blwyddyn weithredu gyfredol y Cynllun yn Atodlen 3. Pennir y swm ar gyfer blynyddoedd ariannol dilynol yn unol â pharagraff 10 isod.

6. Y Tâl Blynyddol

6.1 Bydd y Tâl Blynyddol yn daladwy mewn perthynas â thrwydded o dan y Ddeddf, sydd mewn grym ar hyn o bryd, ar gyfer tynnu dŵr ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 6.2 isod.

6.2 Nid yw'r Tâl Blynyddol yn daladwy mewn perthynas â dŵr yr awdurdodwyd i'w dynnu:

6.2.1 i'w ddefnyddio'n uniongyrchol wrth gynhyrchu trydan neu unrhyw ffurf arall ar bŵer mewn gorsaf neu waith cynhyrchu nad yw'n gallu cynhyrchu mwy na phum megawat; neu

6.2.2 o ddyfroedd mewndirol y mae CNC neu'i ragflaenwyr wedi tystio eu bod yn cynnwys mwy nag 8,000 miligram y litr o glorid ar gyfartaledd;

6.2.3 o dan drwydded dros dro; neu

6.2.4 o dan drwydded drosglwyddo.

6.3 Mae'r Tâl Blynyddol yn cynnwys dwy elfen, y Tâl Safonol a'r Tâl Iawndal.

6.3.1 Y Tâl Safonol yw elfen gyntaf y Tâl Blynyddol, a dyma sut y mae CNC yn adfer ei gostau rheoli a rheoleiddio tyniadau dŵr, yn gymesur ag effaith y drwydded honno ar adnoddau dŵr.

6.3.2 Y Tâl lawndal yw ail elfen y Tâl Blynyddol, sef y swm sy'n cael ei ychwanegu at y Tâl Safonol ar gyfer adfer costau iawndal sy'n gysylltiedig â dirymu neu newid trwyddedau.

6.4 Y Tâl Blynyddol yw cyfanswm y Tâl Safonol a'r Tâl lawndal sy'n cael eu cyfrifo o'r canlynol:

6.4.1 y Cyfaint fel y'i disgrifir ym mharagraff 6.6 isod;

6.4.2 y Ffactor Tâl priodol fel y'i pennir drwy gyfeirio at baragraff 6.7 isod;

6.4.3 y Tâl Uned Safonol ar gyfer pob Rhanbarth fel y'i disgrifir ym mharagraff 6.8 isod; a'r

6.4.4 Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd fel y'i disgrifir ym mharagraff 6.9 isod.

6.5 Disgifir y dull o gyfrifo ym mharagraff 7.1 isod.

6.6 Cyfaint

6.6.1 Y Cyfaint yw'r swm o ddŵr yr awdurdodwyd i'w dynnu'n flynyddol a bennir yn y drwydded. Caiff symiau mewn galwyni eu trosi'n fetrau ciwbig drwy'r fformiwla:

1 miliwn galwyn = 4,546 metr ciwbig

6.6.2 Os nad yw trwydded yn pennu swm blynyddol a awdurdodwyd, caiff ei gyfrifo gan CNC o'r cyfraddau tynnu dŵr a bennir yn y drwydded.

6.7 Ffactor Tâl

6.7.1 Caiff y Ffactor Tâl ei gyfrifo drwy luosi'r ffactorau pwysoli canlynol:

(i) Ffactor Ffynhonnell fel y'i pennir drwy gyfeirio at baragraff 6.7.2 isod.

(ii) Ffactor Tymhorol fel y'i pennir drwy gyfeirio at baragraff 6.7.3 isod.

(iii) Ffactor Colled fel y'i pennir drwy gyfeirio at baragraff 6.7.4 isod.

(iv) Ffactor Ffynhonnell wedi'i Addasu fel y'i pennir drwy gyfeirio at baragraff 6.7.5 isod

6.7.2 Y Ffactor Ffynhonnell

(i) Mae'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng tri math o ffynhonnell, sef:

(a) Heb ei chynnal – Pob ffynhonnell, yn cynnwys dŵr daear, na chânt eu cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau eraill.

(b) Wedi'i chynnal – Y ffynonellau, neu rannau o'r ffynonellau a nodir yn Atodlen 1.

Gall CNC wneud newidiadau i Atodlen 1 o bryd i'w gilydd gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Bydd y Ffactor Ffynhonnell wedi'i Chynnal hefyd yn berthnasol i dyniadau uniongyrchol o gronfeydd a neilltuwyd drwy gytundeb i CNC a hefyd i dyniadau eraill y gallai eu defnyddio i chwyddo'r ffynonellau a nodir yn Atodlen 1.

Ni fydd y Ffactor Ffynhonnell wedi'i Chynnal yn berthnasol i drwyddedau sy'n caniatáu tynnu dŵr o ffynhonnell wedi'i chynnal sy'n cynnwys amodau 'dim ymyrryd â'r lliif' sy'n gwahardd tyniadau ar unrhyw adeg y bydd afon yn cael ei chynnal ac ni all yr amodau hynny effeithio ar faint y gynhaliaeth honno.

(c) Llanwol - Y rhannau o ddyfroedd mewndirol sydd islaw terfyn arferol y llanw fel y'i nodir ar fap OS 1:25,000 a rhannau o ddyfroedd mewndirol a bennir o dro i dro gan CNC gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru mewn mapiau wedi'u hadneuo yn Nhŷ Cambria, prif swyddfa CNC.

Bydd tyniad o unrhyw ddarn o ddŵr mewndirol sy'n Ffynhonnell Lanwol ac yn Ffynhonnell wedi'i Chynnal, fel y disgrifiwyd ym mharagraff 6.7.2(i)(b) uchod, yn cael ei ystyried yn dyniad o Ffynhonnell wedi'i Chynnal.

(ii) Lle bo dŵr yn cael ei dynnu o dan drwydded o ffynhonnell cyflenwad, bydd y rhan honno o'r tyniad trwyddedig sy'n ddibynnol ar ddŵr a drosglwyddwyd o ffynhonnell arall (y ffynhonnell wreiddiol) yn derbyn y Ffactor Ffynhonnell cymwys ar gyfer y ffynhonnell wreiddiol honno.

(iii) Y Ffactor Ffynhonnell ar gyfer pob math o ffynhonnell yw:

Heb ei chynnal 1.0

Wedi'i chynnal 3.0

Llanwol 0.2

6.7.3 Y Ffactor Tymhorol

(i) Ceir tri chategori o Ffactor Tymhorol sy'n seiliedig ar yr adeg o'r flwyddyn yr awdurdodir i'r dŵr gael ei dynnu.

Yn amodol ar ddarpariaethau paragraffau 6.7.3(ii) a 6.7.3(iii) isod, dyma'r tri chategori:

(a) Haf – awdurdodir y tyniad rhwng 1 Ebrill a 31 Hydref yn gynwysedig.

(b) Gaeaf – awdurdodir y tyniad rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth yn gynwysedig.

(c) Trwy'r Flwyddyn – Awdurdodir y tyniad ar gyfer pob adeg o'r flwyddyn, neu nid yw wedi'i gynnwys yn y naill neu'r llall o'r categorïau uchod.

(ii) Diffinnir tyniad ar gyfer dyfrhau drwy chwistrellu a diferynnu fel tyniad Haf oni bai bod y dŵr yn dod

(a) o bwll neu gronfa, neu wedi'i gynnal gan bwll neu gronfa, nad yw'n gorwedd ar lwybr ac sy'n cael ei lenwi gan fewnfa a reolir o ffynhonnell cyflenwad yn ystod y gaeaf yn unig, neu

(b) ei fod o bwll o gronfa, neu wedi'i gynnal gan bwll neu gronfa sy'n gorwedd ar lwybr afon, gyda threfniant rhagnodedig yn y drwydded i ryddhau neu ddargyfeirio llifoedd yn ystod tymor yr Haf.

Yn y sefyllfaoedd hyn, dosberthir swm sy'n cyfateb i gapasiti'r gronfa fel tyniad Gaeaf a dosberthir unrhyw dyniad a awdurdodwyd sy'n fwy na chapasiti'r gronfa fel tyniad Haf.

Bydd deiliad y drwydded yn darparu unrhyw wybodaeth a fo'n rhesymol i CNC ofyn amdani er mwyn dangos bod digon o le ar gael iddo mewn gwirionedd i storio dŵr, neu fel arall, dosberthir y tyniad a awdurdodwyd fel tyniad Haf.

(c) ar gyfer chwistrellu rhag rhew yn unig, a ddosberthir fel tyniad Trwy'r Flwyddyn.

(iii) Lle bo trwydded yn awdurdodi symiau penodedig o ddŵr i'w dynnu yn ystod yr Haf ac yn ystod y Gaeaf fel y diffiniwyd ym mharagraff 6.7.3(i) uchod, cyfrifir taliadau ar wahân ar gyfer pob cyfnod, yn unol â darpariaethau'r Cynllun, a'u cyfuno yn y Tâl Blynyddol.

(iv) Y Ffactor Tymhorol ar gyfer pob categori yw:

Haf 1.6

Gaeaf 0.16

Trwy'r Flwyddyn 1.0

6.7.4 Y Ffactor Colled

(i) Mae'r Ffactor Colled yn ymwneud â pha ddiben sydd i'r dŵr y mae'r drwydded yn ei awdurdodi ac mae'n cynnwys pedwar categori. Rhennir y tyniadau yn bedwar categori fel a ganlyn:

(a) Colled Fawr

Mae hyn yn cynnwys tynnu dŵr ar gyfer:

dyfrhau drwy chwistrellu a diferynnu; dyfrhau garddwriaethol; atal llwch a dibenion eraill, lle nad yw dŵr yn cael ei ddychwelyd i ffynhonnell y cyflenwad yn uniongyrchol na'n uniongyrchol oherwydd anweddiad.

(b) Colled Ganolig

Mae hyn yn cynnwys tynnu dŵr ar gyfer:

cyflenwadau dŵr cyhoeddus a phreifat; dibenion masnachol nas nodwyd yn unman arall; dibenion diwydiannol nas nodwyd yn unman arall; boeleri; defnydd fel modd o gludo deunydd; potelu a defnydd sy'n cynnwys dŵr yn y cynnyrch; tyniadau at ddibenion amaethyddol (ac eithrio dyfrhau garddwriaethol, dyfrhau drwy chwistrellu a diferynnu, dyfrleidio, llifddolydd, ffensys gwlyb, ffermydd pysgod a thyfu berwr dŵr), a chwistrellu rhag rhew.

(c) Colled Fach

Mae hyn yn cynnwys tynnu dŵr ar gyfer:

golchi mwynau; golchi llyisiau, ac oeri an-anweddol.

(d) Colled Fach lawn

Mae hyn yn cynnwys tynnu dŵr ar gyfer:

cynhyrchu mwy na 5 megawat o bŵer; llif trwy byllau amwynder; profion hydrologig; ffermydd pysgod, tyfu berwr dŵr; trosglwyddo dŵr o unrhyw ffynhonnell cyflenwad i systemau dŵr a weithredir gan awdurdodau mordwyaeth, harbwr neu gadwraeth; trosglwyddiadau dŵr o un ffynhonnell cyflenwad i un arall; cael gwared ar ddŵr at ddibenion draenio; ffensys gwlyb; llifddolydd; dyfrleidio a gwanhau elifion, a phob system ddyfrhau drwy orlif sy'n ddibynnol ar lefel naill ai gyda'r llif neu fel arall.

(ii) Caiff tyniadau at ddibenion nas nodwyd ym mharagraff 6.7.4(i) uchod eu hystyried fel Colled Fawr oni phennir fel arall gan CNC ar ôl ystyried gwybodaeth a ddarperir gan y tynnwr dŵr.

(iii) Y Ffactor Colled ar gyfer pob categori yw:

Uchel 1.0

Canolig 0.6

Isel 0.03

Isel lawn 0.003

6.7.5 Y Ffactor Ffynhonnell wedi'i Addasu

(i) Er mwyn cyfrifo elfen Tâl lawndal y Tâl Blynyddol, bydd y Cynllun ond yn gwahaniaethu rhwng ffynonellau llanwol a di-lanw. Bydd tyniad o unrhyw ddŵr mewndirol, a ddosbarthwyd naill ai fel ffynhonnell wedi'i chynnal neu heb ei chynnal fel y disgrifir ym mharagraff 6.7.2(i)(a) a (b) uchod, yn cael ei ystyried yn ffynhonnell di-lanw. Bydd y ffactor ffynhonnell lanwol yn dal yn gymwys i dynwyr dŵr sydd â thrwyddedau'n awdurdodi tynnu o ardaloedd llanwol fel y'u disgrifir ym mharagraff 6.7.2(i)(c) uchod.

(ii) Y ffactor ffynhonnell wedi'i addasu ar gyfer pob math o ffynhonnell yw:

Di-lanw (wedi'i chynnal/heb ei chynnal) 1.0

Llanwol 0.2

6.8 Y Tâl Uned Safonol

Gwelir y Tâl Uned Safonol ar gyfer pob un rhanbarth codi tâl yng Nghymru, ar gyfer blwyddyn weithredu gyfredol y Cynllun, yn Atodlen 3. Pennir Tâl Uned Safonol pob rhanbarth ar gyfer blynyddoedd dilynol yn unol â adran 10 isod. Dangosir y Tâl Uned Safonol mewn punnoedd sterling am bob mil o fetrau ciwbig. Yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys ym mhob rhanbarth yw'r rhai a ddynodwyd gan CNC a'u nodi ar y Map o dan y pennawd "Map y cyfeiriwyd ato yn y Cynllun Taliadau Tynnu Dŵr" sydd wedi'i adneuo yn Nhŷ Cambria, prif swyddfa CNC, ac sy'n dwyn teitl i'r diben hwnnw.

6.9 Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (TUGA)

Mae TUGA ar gyfer y flwyddyn gyfredol yng Nghymru i'w weld yn Atodlen 4. **Nodwch nad oes tâl ar gyfer y flwyddyn yma.** Pennir TUGA ar gyfer blynyddoedd dilynol yn unol â

adran 10 isod. Dangosir TUGA mewn punnoedd sterling am bob mil o fetrau ciwbig. Yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys ym mhob rhanbarth yw rhai a ddynodwyd gan CNC a'u nodi ar y map fel y sonnir ym mharagraff 6.8 uchod.

7 Dull o Gyfrifo

7.1 Y Tâl Blynyddol yw cyfanswm y Tâl Safonol a'r Tâl lawndal, a chaiff ei gyfrifo fel a ganlyn:

Tâl Blynyddol = Tâl Safonol + Tâl lawndal

= $V \times A \times B \times C \times TUS + V \times B \times C \times D \times TUGA$

lle: V = cyfaint trwyddedig blynyddol ('000 metr ciwbig)

A = ffactor ffynhonnell

B = ffactor tymhorol

C = ffactor colled

D = ffactor ffynhonnell wedi'i addasu

TUS = Tâl Uned Safonol (£/1000 metr ciwbig)

$TUGA$ = Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (£/1000 metr ciwbig)

7.1.1 Cyfrifir y Tâl Safonol o'r Cyfaint, y Ffactor Tâl (ffactorau ffynhonnell, tymhorol, a cholled) a'r Tâl Uned Safonol fel a ganlyn:

(i) lluosir Cyfaint a'r Ffactor Tâl perthnasol.

(ii) lluosir canlyniad y cyfrifiad yn 7.1.1(i) a'r Tâl Uned Safonol ar gyfer y rhanbarth.

7.1.2 Cyfrifir y Tâl lawndal o'r Cyfaint, y Ffactor Tâl (ffactorau tymhorol, colled a ffynhonnell wedi'u haddasu), a Thâl Uned Gwella'r Amgylchedd fel a ganlyn:

(i) lluosir Cyfaint a'r Ffactor Tâl perthnasol.

(ii) lluosir canlyniad y cyfrifiad yn 7.1.2(i) a Thâl Uned Gwella'r Amgylchedd.

7.1.3 Adio canlyniadau'r cyfrifiadau yn 7.1.1(ii) a 7.1.2 (ii) i gael cyfanswm y tâl blynyddol

7.2. Os delir trwydded am ran o flwyddyn ariannol yn unig, neu os caiff ei newid yn ystod blwyddyn ariannol, bydd faint sy'n daladwy neu faint sy'n daladwy ar ôl ei newid, fel y bo'n digwydd, yn cael ei gyfrifo drwy rannu'r tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gymesur (neu, os yw'n llai, y cyfnod o'r flwyddyn sy'n destun y drwydded dynnu dŵr).

Lle bo trwydded yn pennu symiau a awdurdodwyd ar wahân sy'n denu Ffactorau Tâl gwahanol, cyfrifir cyfanswm y tâl o'r gwahanol daliadau. Os nad yw'r drwydded yn pennu

symiau blynyddol ar wahân, cyfrifir y tâl drwy ddefnyddio'r Ffactorau Tâl uchaf a fo'n gymwys oni bai bod CNC wedi cytuno i rannu'r swm a awdurdodwyd.

7.3 Cyfrifo taliadau mewn amgylchiadau arbennig:

(i) lle bo amodau dwy neu fwy o drwyddedau yn golygu y dylai swm cyfanredol y dŵr y gellir ei dynnu fod yn llai na'r cyfanswm a awdurdodwyd gan bob trwydded, seilir y Tâl Blynyddol ar y swm cyfanredol. Y Tâl Blynyddol mewn achosion o'r fath fydd y tâl uchaf y gellir ei gyfrifo o'r drwydded unigol neu'r trwyddedau sy'n awdurdodi'r swm cyfanredol.

(ii) gall deiliad y drwydded sy'n awdurdodi tyniad ar gyfer dyrhau drwy chwistrellu neu ddiferynnu, neu ymgeisydd am drwydded o'r fath, wneud cais yn gofyn i CNC gyfrifo'r Tâl Blynyddol drwy gyfeirio at Atodlen 2 i'r Cynllun.

(iii) lle bo swm llawn trwydded wedi'i werthu am gyfnod o dros 28 diwrnod yna bydd trwydded y gwerthwr wedi'i heithrio rhag taliadau blynyddol yn ystod cyfnod y masnachu. Os yw'r prynwr yn dirymu'r drwydded a roddwyd iddo fel rhan o'r masnachu cyn diwedd cyfnod y masnachu, yna ni fydd trwydded y gwerthwr wedi'i heithrio mwyach rhag taliadau blynyddol a bydd y gwerthwr yn gyfrifol am dalu taliadau o'r dyddiad dirymu trwydded y prynwr.

8 Isafswm Tâl

8.1 Mewn unrhyw achos lle bydd y Tâl Blynyddol a gyfrifir ar gyfer pob trwydded yn llai na'r Isafswm Tâl bydd angen talu'r Isafswm Tâl.

8.2 Os delir trwydded am ran o flwyddyn ariannol yn unig, neu os caiff ei newid yn ystod blwyddyn ariannol, ni fydd y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r drwydded honno yn y flwyddyn honno, neu dros weddill y flwyddyn honno yn ôl fel y bo'n digwydd, yn is na'r Isafswm Tâl.

8.3 Gwelir yr Isafswm Tâl ar gyfer blwyddyn weithredu gyfredol y Cynllun yn Atodlen 3. Pennir yr Isafswm Tâl ar gyfer blynyddoedd dilynol yn unol â adran 10 isod.

9 Talu Taliadau

9.1 Y Tâl Ymgeisio:

9.1.1 mae'r Tâl Ymgeisio yn daladwy gan y person sy'n ymgeisio am drwydded o dan y Ddeddf neu'n ymgeisio i newid unrhyw drwydded o'r fath, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 4.2 uchod.

9.1.2 bydd y tâl yn ddyledus ar y dyddiad y gwneir cais am drwydded, neu am newid trwydded o'r fath.

9.2 Y Tâl Gweinyddu Hysbysebion

9.2.1 mae'r Tâl Gweinyddu Hysbysebion yn daladwy gan y person sy'n gwneud cais am drwydded o dan y Ddeddf neu gais i newid trwydded o'r fath lle mae angen hysbysebu.

9.2.2 bydd y tâl yn ddyledus ar y dyddiad y bydd yr ymgeisydd yn derbyn cydnabyddiaeth gan CNC ei fod wedi derbyn y cais am drwydded, neu gais i newid trwydded o'r fath, a phan fydd CNC wedi cadarnhau bod angen hysbysebu.

9.3 Y Tâl Blynyddol:

9.3.1 bydd y tâl a ragnodir gan y Cynllun yn daladwy gan ddeiliad trwydded gyfredol i dynnu dŵr.

9.3.2 bydd y tâl mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol yn ddyledus ar 1 Ebrill, neu,

(i) yn achos trwydded a roddir yn ystod y flwyddyn ariannol honno ar y dyddiad y caiff y drwydded ei rhoi, neu,

(ii) o ran newid trwydded, bydd unrhyw dâl a addaswyd neu ad-daliad, fel y bo'n briodol, yn ddyledus ar y dyddiad y newidir y drwydded, neu

(iii) o ran trosglwyddo trwydded i drosglwyddai yn rhinwedd adrannau 59A-C y Ddeddf, neu yn yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer gan Reoliadau a wnaed o dan adran 59D y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, bydd y taliadau'n ddyledus ar y dyddiad y daw'r trosglwyddai yn ddeiliad y drwydded.

9.3.3 Pan fo cais wedi'i wneud am daliadau arbennig yn yr amgylchiadau a nodir yn Atodlen 2, bydd y taliadau fel a ganlyn:

(i) bydd y tâl sylfaenol mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol yn ddyledus ar 1 Ebrill, neu fel y pennir fel arall ym mharagraff 9.3.2 uchod.

(ii) daw'r tâl atodol yn ddyledus ar gais.

10 Pennu taliadau

10.1 Pennir taliadau am gyfnodau sy'n dilyn blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun hwn gan CNC mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru fel y darperir ar ei gyfer gan adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

11 Penderfyniadau o dan y Cynllun

11.1 Lle ceir darpariaeth o dan y Cynllun i CNC gydnabod, asesu, cytuno, pennu neu ardystio unrhyw beth neu wneud penderfyniad mewn unrhyw fodd arall, gall y Prif Weithredwr neu swyddog a enwebir ganddo ef neu hi i'r diben hwnnw wneud penderfyniadau o'r fath ar ran CNC, ac ardystio mai felly y gwnaed.

Ffynonellau wedi'u Cynnal Atodlen 1

Ystyrir bod y canlynol yn Ffynonellau wedi'u Cynnal at ddibenion y Cynllun.

Cyfeinodau Arowg Ordnans

Ffynhonnell Gyflenwi	Terfyn at i fyny	Terfyn at i lawr
Aled	SH 915 599	SH 957 703
Clwyd	SJ 122 593	SJ 057 721
Alwen	SH 974 527	SJ 061 425
Brenig	SH 974 539	SH 974 527

Dyfrdwy	SH 929 351	SJ 408 658
Tryweryn	SH 881 399	SH 933 354
Cwmystradlyn	SH 558 440	SH 515 428
Dwyfor	SH 515 428	SH 508 430
Tywi	SN 791 485	SN 487 204
Elan	SN 924 644	SN 966 656
Gwy	SN 966 656	SO 516 131
Clywedog	SN 912 870	SN954 847 o fewn TUS Hafren
Hafren	SN 954 847	SO 822 182 o fewn TUS Hafren - SO 818 216

Taliadau Arbennig mewn perthynas â Dyfrhau drwy Chwistrellu a Diferynnu Atodlen 2

1. Mae'r Atodlen hon ond yn berthnasol ar gyfer trwyddedau sy'n awdurdodi dyfrhau drwy chwistrellu neu ddiferynnu.

2. Lle bo deiliad y drwydded yn mesur faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu drwy ddefnyddio mesurydd dŵr cymeradwy wedi'i osod a'i gynnal a'i gadw er boddhad CNC, ac yn cyflwyno i CNC, o fewn 28 diwrnod i gais ysgrifenedig, ddarlleniadau dyddiol (neu ba mor aml bynnag ag y cytunwyd â CNC yn ysgrifenedig) o'r mesurydd yn nodi faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu a manylion y cyfarpar pwmpio a dyfrhau, dylid cyfrifo'r Tâl Safonol fel a ganlyn:

2.1 tâl sylfaenol o 50% o'r swm sy'n daladwy wedi'i gyfrifo gan y Cynllun lle ystyrir mai'r Cyfaint yw'r swm blynyddol a awdurdodir gan y drwydded i'w ddefnyddio ond at ddibenion dyfrhau drwy chwistrellu neu ddiferynnu, ynghyd â

2.2 tâl atodol o 50% o'r swm sy'n daladwy wedi'i gyfrifo gan y Cynllun lle ystyrir mai'r Cyfaint yw'r cyfanswm a dynnir mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn at ddibenion dyfrhau drwy chwistrellu neu ddiferynnu.

3. Os yw deiliad y drwydded yn methu â chydymffurfio â'r amodau a nodir uchod, cyfrifir y Tâl Blynyddol drwy gyfeirio at baragraffau 6.1 i 6.9 y Cynllun ac ni roddir unrhyw ostyngiad.

4. Lle bo amodau dwy neu ragor o drwyddedau yn golygu bod swm cyfanredol y dŵr y caniateir ei dynnu at ddibenion dyfrhau drwy chwistrellu neu ddiferynnu yn llai na chyfanswm y symiau a awdurdodir gan bob trwydded, y tâl sylfaenol fydd 50% o'r swm sy'n daladwy, wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff 7.3(i) y Cynllun a'r tâl atodol ar gyfer pob trwydded fydd 50% o'r swm sy'n daladwy yn unol â'r Cynllun, lle cymerir mai'r Cyfaint yw'r swm a dynnir mewn gwirionedd o dan y drwydded honno.

5. Bydd yr Isafswm Tâl yn daladwy mewn unrhyw achos lle bo'r tâl a gyfrifir yn llai na'r Isafswm Tâl.

Taliadau Tynnu Dŵr ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 Atodlen 3.

Mae'r cyfraddau tâl ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 fel a ganlyn:

Mae'r cyfraddau tâl ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 fel a ganlyn:	2020/2021 Tâl Uned Safonol (£/1000m3)
Cymru (ac eithrio dalgylch Hafren)	15.54
Dalgylch Hafren	14.95

Yr Isafswm Tâl Blyneddol yw £25.00

Y Tâl Ymgeisio yw £135.00

Mae'r Ffi Cais Uwch yn £1,500.00 ac yn berthnasol i geisiadau sydd wedi eu heithrio o'r Tâl Blyneddol o dan adran 6. (Mae hyn yn cynnwys trwyddedau cronïad, trwyddedau dros-dro a throsglwyddo).

Cynhyrchu Pŵer Trydan Dŵr

Mae'r tâl ymgeisio uwch o £ 1,500 yn berthnasol i dyniadau ar gyfer cynhyrchu pŵer trydan dŵr â chapasiti gosodedig o 250 kW neu lai, ond yn fwy na 100 kW.

Ar gyfer cynlluniau ynni dŵr mwy na 250 kW sy'n fwy cymhleth ac ar raddfa sy'n gofyn am fwy o fewnbwn technegol gan CNC, byddwn yn cymhwyso'r tâl sylfaenol o £ 1,500 ac amser a deunyddiau adennill costau (ar £ 125 / awr) pan eir y tu hwnt iddo.

Ar gyfer cynlluniau ynni dŵr sydd â chynhwysedd o 100kW neu lai, codir taliadau cais haenog (yn seiliedig ar allbwn pŵer mewn kW) a amlinellir yn y tabl taliadau ynni dŵr sy'n dilyn:

Gallu cynhyrchu'r Cynllun	2020/21 Ffioedd cais (£)
25kW neu lai	375
>25 i 50kW	750
>50 i 100kW	1,125
>100kW	1,500
>250kW	1,500 + ffi seiliedig ar amser

Cais ar y Cyd

Lle caiff ceisiadau am drwydded echdynnu a thrwydded cron ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig eu cyflwyno ar y cyd, codir un ffi ymgeisio yn unol â'r ffioedd a nodir uchod. (Er enghraifft , os cyflwynir cais am drwydded echdyniad a thrwydded gronni am gynllun ynni dŵr 20kW, bydd cyfanswm y tâl yn £375 fel y dangosir yn y tabl).

Amrywiadau i drwyddedau

Mae amrywiadau gweinyddol (mân newidiadau megis trosglwyddo deiliad trwydded, newid manylion cyswllt, gostyngiadau mewn meintiau) fel arfer yn rhad ac am ddim, tra bydd amrywiadau technegol (megis cynyddu meintiau neu ychwanegu pwyntiau tynnu dŵr) yn codi'r un tâl yn unol â'r taliadau cais a restrir uchod.

Y Tâl Gweinyddu Hysbysebion yw £100

Noder: os na thelir y Tâl Blynyddol sy'n daladwy o dan y Cynllun o fewn wyth diwrnod ar hugain ar ôl i hysbysiad ysgrifenedig yn gofyn am y tâl gael ei gyflwyno i ddeiliad y drwydded, yna gall CNC ddirymu'r drwydded yn unol â darpariaethau adran 41(6) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd Atodlen 4

Mae'r cyfraddau talu ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 fel a ganlyn:	2020/2021 Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd i rai nad ydynt yn Ymgymeryr Dŵr (£/1000m3)	2020/2021 Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd i Ymgymeryr Dŵr (£/1000m3)
Cymru (ac eithrio dalgylch Hafren)	0.00	0.00
Dalgylch Hafren	0.00	0.00